

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015–2030
ARCHWILIAD CYHOEDDUS

Gwrandawriad Newidiadau i Faterion sy'n Codi
Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021

Canlyniadau'r Gwaith ar Ffosffadau

Datganiad Gwrandawriad gan Gyngor Sir y Fflint



Cyflwynwyd 17 Tachwedd 2021

Archwiliad Cyhoeddus Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015–2030)

Datganiad Cyngor Sir y Fflint: Canlyniadau'r Gwaith ar Ffosffadau

Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi gan Gyngor Sir y Fflint (CSyFf) mewn ymateb i gwestiynau gwrandawriad yr Arolygwyr ar gyfer eitem 4 'Gwaith ar Ffosffadau'

Mater Allweddol: Gwaith ar ffosffadau

Y cyngor i egluro'r dull yn cynnwys:

- Strategaeth lleihau ffosfforws;
- Datganiad tir cyffredin;
- Diweddarau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd;
- Diwygio'r polisi / MAC101;
- Goblygiadau ar gyfer dyraniadau, lwfans hap-safleoedd, cadernid y CDLI.

Ymateb y Cyngor:

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r mater o lefelau ffosffadau sy'n deillio o ddatblygiadau newydd a gynigir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) a'r berthynas â thargedau ansawdd dŵr newydd a osodwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd yn fater i Gymru gyfan. Sefydlwyd nifer o ffrydiau gwaith cenedlaethol i geisio dynodi dull strategol o liniaru oedd yn cynnwys yr holl fudd-ddeiliad perthnasol yn cynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru, asiantaethau amgylcheddol eraill, yr Arolygiaeth Gynllunio a datblygwyr.
- 1.2 Mewn prawf cydymffurfiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru, gwelwyd methiant yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i fodloni'r safonau newydd hyn yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid a gwelwyd yr un canlyniad yng Nghynllun Datblygu Lleol Wrecsam ar gyfer yr un Ardal. O ganlyniad, rhyddhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru ganllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol, i geisio sicrhau, drwy eu Hasesiadau Rheoliadau Cynefinoedd o'u Cynlluniau Datblygu Lleol, nad oes unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw ardaloedd cadwraeth arbennig yn codi o ddatblygiad a hyrwyddir yn y cynllun.
- 1.3 Yn dilyn hyn, ysgrifennodd yr Arolygwyr at y ddau Gyngor yn gofyn am i oblygiadau targedau newydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r canllawiau ar gyfer ardaloedd cadwraeth arbennig o ran llwyth ffosffad o ddatblygiad newydd, gael sylw yn y CDLI.
- 1.4 Gan fod Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint a Wrecsam ar gamau Archwilio tebyg iawn, yn ymwneud â'r un ardaloedd cadwraeth arbennig, yn rhannu'r un Arolygydd arweiniol a'u bod yn cyrraedd y cam ymgynghori ar eu Newidiadau i Faterion sy'n

Codi, mae'r ddau Gyngor wedi penderfynu ymateb ar y cyd i'r mater hynod dechnegol hwn a ble nad oes cynsail wedi'i sefydlu yng Nghymru hyd yma, maent wedi gweithio gydag ymgynghorwyr arbenigol ac mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru i gytuno ar ddull sy'n ymdrin â'r gofynion a osodwyd yn flaenorol gan yr Arolygwyr a chynorthwyo'r broses Archwilio.

- 1.5 Yn dilyn llythyr y Cyngor at yr Arolygwyr dyddiedig 6 Hydref 2021([FCC025](#)) ble'r eglurodd y Cyngor ei ddull o ymdrin â'r mater ffosffadau ac ymateb defnyddiol yr Arolygwyr dyddiedig 14 Hydref 2021([INSP013](#)), mae'r Cyngor yn awr wedi paratoi'r dogfennau a nodwyd yn ei ddull amlinellol, sy'n angenrheidiol ac yn briodol er mwyn ymdrin â'r gofyniad i ddangos na fydd y cynllun yn cael effaith niweidiol ar yr ardaloedd cadwraeth arbennig o'r datblygiadau a gynigir ynddo. Mae'r rhain yn cael eu hegluro yn eu tro fel a ganlyn.

2. Strategaeth Lleihau Ffosfforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy ([FCC031](#))

- 2.1 Y prif ysgogwyr ar gyfer paratoi strategaeth yw'r amddiffyniad cyfreithiol a roddir i'r afon dan y Rheoliadau Cynefinoedd, yr angen i asesu goblygiadau twf arfaethedig y CDLI a'r ffaith fod ffosffadau yn fater llawer ehangach o ran maint a chyd-destun na'r CDLI yn unig, sydd angen gwaith partneriaeth amlasiantaethol ar draws y dalgylch cyfan.
- 2.2 O'r sefyllfa a osodwyd yn wreiddiol yn ei ddatganiad i Fater 1 yr Archwiliad ([M1.01](#)), ac yn dilyn cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru a barn arbenigol broffesiynol gan ymgynghorwyr, mae'r Cyngor wedi casglu na all y CDLI ddibynnu ar gydsyniadau ffosffad presennol mewn gwaith trin dŵr gwastraff lleol i benderfynu na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd yr ardaloedd cadwraeth arbennig o ddatblygiadau a gynigir yn y CDLI. I fodloni'r dyletswyddau cyfreithiol dan y Rheoliadau Cynefinoedd, rhaid i ddatblygiadau a hyrwyddir gan y CDLI gael eu lliniaru i leihau ffosffad o ddŵr gwastraff.
- 2.3 Mae'r strategaeth felly yn gosod y dull strategol o ddarparu gostyngiadau mewn ffosffad yn nalgylch Afon Dyfrdwy wrth hwyluso twf y CDLI ar yr un pryd. Mae'n cynnwys mesurau ymarferol i liniaru effaith ffosffadau sy'n mynd i mewn i'r afon ac yn egluro sut y bydd y rhain yn cael eu darparu'n ymarferol. Mae iddo ddau ddiben clir: yn gyntaf, i ddarparu tystiolaeth i ddangos y bydd effaith niweidiol o ddatblygiadau yn y CDLI yn cael eu hosgoi ac yn ail, i nodi dull tymor hirach i ddarparu gostyngiad mewn ffosffad ar draws holl dalgylch yr afon sy'n mynd y tu hwnt i ddatblygu tai a hyd yn oed cynllunio defnydd tir, i gynnwys ffynonellau ffosffad gwreiddiol ac ar raddfa fawr megis amaethyddiaeth (gwastraff anifeiliaid a gwrtaith).
- 2.4 Mae'r strategaeth yn 'ddogfen fyw' ac o'r herwydd, bydd yn cael ei mireinio dan stiwardiaeth bwrdd amlasiantaethol fydd yn cael ei sefydlu yn y dyfodol agos.

Crynodeb o'r Strategaeth Lleihau Ffosfforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy:

- 2.5 Mae'r strategaeth yn gosod cyfres o gerrig milltir eang ble rhoddir camau ar fesurau lliniaru (yn benodol i'r CDLI ac yn ehangach, heb fod yn benodol i'r CDLI) yn eu lle ar gyfer datblygiad yn y CDLI i fynd yn ei flaen ac i leihau ffosffadau'n ehangach. Bydd hyn yn cynnwys cynigion angenrheidiol gan y datblygwr ar y safle, megis Systemau Draenio Cynaliadwy cyfunol a gwelyau corsen a phlannu coed a chyfraniadau gan y datblygwr oddi ar y safle (sef drwy Rwymedigaethau cynllunio Adran 106), megis gwella hidlyddion ffosffad mewn gwaith trin dŵr.
- 2.6 Nod y gyntaf o ddwy elfen yn y strategaeth yw hwyluso darpariaeth datblygiad ac osgoi effaith niweidiol ar yr ardaloedd cadwraeth arbennig o dwf arfaethedig o ganlyniad i drin dŵr gwastraff. Mewn egwyddor, bydd datblygiad newydd yn 'niwtral o ran ffosffad' (sef ni fydd yn ychwanegu unrhyw ffosffad ychwanegol at yr ardaloedd cadwraeth arbennig i wneud y sefyllfa'n waeth). Mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod datblygiad yn darparu'r mesurau lliniaru hyn (o'r enw **mesurau Categori 1** yn y strategaeth) yn syrthio o fewn y CDLI; sef y Polisi EN15 diwygiedig yn y CDLI.
- 2.7 Nod yr ail elfen yw darparu gostyngiadau ehangach mewn ffosffad ar draws holl ddalgylch Afon Dyfrdwy, a achosir yn bennaf gan amaethyddiaeth ac sy'n cael ei ryddhau o waith trin dŵr gwastraff (o'r enw **mesurau Categori 2** yn y strategaeth). Mae'r strategaeth yn cydnabod mai cyfrifoldeb llawer o fudd-ddeiliaid allweddol o bob sector yw'r gweithredoedd hyn, yn cynnwys tîrffeddiawyr, Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a chynghorau lleol. Mae'r strategaeth yn nodi fframwaith ar gyfer cyflawni'r gostyngiadau ehangach hyn, ac yn bwysig, y fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio fydd yn penderfynu ar y rolau a chyfrifoldebau ar gyfer darparu'r gwaith hwn. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gydlynu drwy bartneriaeth amlasiantaethol o'r enw '**Bwrdd Rheoli Maethynnau**', (yn dilyn y model a sefydlwyd mewn ardal arall yng Nghymru ar gyfer afonydd a effeithiwyd).
- 2.8 Mae'r strategaeth yn dynodi ystod o fesurau sy'n bosibl yn dechnegol ac y gellir eu darparu'n rhesymol (ni fydd y rhain i gyd yn cael eu defnyddio; y bwriad yw dangos bod atebion i'r broblem). Mae mesurau o'r fath yn cynnwys rheoli ffynonellau amaethyddol, gwella technoleg ac arferion mewn gwaith trin dŵr gwastraff, Systemau Draenio Cynaliadwy, Parthau Clustogi Integredig ac atebion yn seiliedig ar natur (gwlyptiroedd a phlannu coed). Mae'r strategaeth yn mynd ymlaen i ddisgrifio'r egwyddor ar gyfer dewis y mesurau (effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, gallu i ddarparu, y lleiaf beichus).
- 2.9 Mae rhan olaf y strategaeth yn ystyried materion gweithredu, yr angen posibl am gynllun cyfraniad gan ddatblygwr a ffynonellau cyllid posibl i ymdrin â'r materion ehangach (e.e. Cymorth Grant Llywodraeth Cymru, Cyllid Strategol a Neilltuwyd a Chronfa Gyfalaf Ansawdd Dŵr, cyllid amaethyddol Llywodraeth Cymru i ddarparu buddion amgylcheddol positif ac AMP8, ymhlith sawl ffynhonnell arall). Mae targedau a cherrig milltir i fesur llwyddiant y strategaeth hefyd. Y tu hwnt i

ddarparu'r cerrig milltir eu hunain, cynigir monitro ansawdd y dŵr yn yr ardaloedd cadwraeth arbennig hefyd y roi hyder bod y strategaeth yn bodloni ei hamcanion.

- 2.10 Fel y dywedwyd uchod, mae'r **Strategaeth Lleihau Ffosforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy** yn ddogfen 'fyw' a bydd y fersiwn cyntaf a gyflwynwyd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad Newidiadau i Faterion sy'n Codi fel rhan o sail tystiolaeth y Cynllun. Mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i ddatblygu'r Strategaeth cyn y bydd y Cyngor yn ystyried mabwysiadu'r Cynllun. Y bwriad yw y bydd yn esblygu ymhellach dros oes y CDLI gydag adolygiadau rheolaidd i adlewyrchu dysg ac i ystyried unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth newydd fydd ar gael.
- 2.11 Bydd gan y strategaeth gyswllt uniongyrchol a bydd yn cefnogi **Polisi EN15 y CDLI: Adnoddau Dŵr**. Bydd hefyd yn cefnogi canllawiau cynllunio atodol cysylltiedig y Cyngor, a fydd yn cael eu paratoi yn y ffordd briodol ag ymgysylltiad llawn yn dilyn mabwysiadu'r CDLI.
- 2.12 Gellir dibynnu ar y strategaeth, gyda'i mesurau a'i hamserlenni i sicrhau **na fydd cyflawni'r datblygiad a gynigir yn y CDLI yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd yr ardaloedd cadwraeth arbennig**.

3. **Datganiad Tir Cyffredin ([SOCG012](#))**

- 3.1 Dyma ddatganiad ar y cyd rhwng y Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru sy'n fudd-ddeiliad allweddol ac sydd wedi bod yn cydweithio'n agos gyda'r Cyngor drwy gydol y camau gwahanol o baratoi'r CDLI, yr Archwiliad a pharatoi'r strategaeth. Mae'n ychwanegol i'r [SOCG006](#), a gyflwynwyd i'w archwilio ym mis Ionawr 2021.
- 3.2 Mae'r datganiad yn gosod y tir cyffredin rhwng y ddau barti ar y dull strategol o leihau lefelau ffosforws yn nalgylch yr ardaloedd cadwraeth arbennig, i helpu'r Arolygwyr.
- 3.3 At ddibenion y CDLI, mae ar y Cyngor angen cefnogaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru a budd-ddeiliaid eraill i sicrhau newidiadau mewn ansawdd dŵr afonydd ar y raddfa, amser a sicrwydd sydd ei angen i ddarparu'r dyraniadau arfaethedig, wrth osgoi effaith niweidiol ar gyfanrwydd yr ardaloedd cadwraeth arbennig. Byddai mesurau lliniaru a ddarperir gan y CDLI yna'n eistedd dan adain strategaeth ehangach i fodloni'r targedau ffosforws, adfer yr ardaloedd cadwraeth arbennig i gyflwr ffafriol a chreu gallu amgylcheddol ar gyfer datblygiadau'r dyfodol.
- 3.4 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r dull sy'n cael ei gymryd i ddatblygu'r strategaeth ac maent yn fodlon bod y dull strategol arfaethedig at ddarparu'r mesurau lliniaru yn dderbyniol mewn egwyddor.

4. **Diweddariad o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

- 4.1 Rhaid i'r Cyngor wneud asesiad o oblygiadau'r CDLI cyn iddo gael ei fabwysiadu (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) a gall fabwysiadu'r CDLI dim ond os gellir osgoi effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd y safle.
- 4.2 Cyflwynwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn wreiddiol ochr yn ochr â'r CDLI i'w Archwilio'n Gyhoeddus, ond oherwydd y newidiadau i'r cynllun a gododd yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus (Newidiadau i Faterion sy'n Codi) a'r mater ffosffad newydd hwn, mae angen atodiad i'r adroddiad yn awr.
- 4.3 Mae'r atodiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn casglu, yn amodol ar y Polisi EN15 diwygiedig a'r dull strategol o leihau ffosfforws a nodwyd yn y Strategaeth, **na fydd y CDLI yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd Ewropeaidd.**

5. Polisi EN15/MAC101 Diwygiedig ([FCC030](#))

- 5.1 Mae Polisi EN15 yn ymdrin â diogelu amgylchedd y dŵr drwy ddarparu cynllun wrth gefn; gan sicrhau nad yw'r datblygiadau newydd yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd o ran lefelau ffosffadau. Mae hefyd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Lleihau Ffosfforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy a chyflawni'r mesurau sydd ynddi, ar lefel gweithredu a chyfrifoldeb.
- 5.2 Er mwyn i Bolisi EN15 barhau i weithredu fel mesur lliniaru, mae angen adolygu geiriad fersiwn 2019 i'w archwilio gan y cyhoedd, yn benodol i gyfeirio at y dull strategol sy'n cael ei gymryd i ddarparu mesurau lleihau ffosfforws ar draws dalgylch yr afon. Mae geiriad diwygiedig arfaethedig y polisi a'r cyfiawnhad rhesymedig wedi cael ei gytuno arno â Chyfoeth Naturiol Cymru. Gweler Atodiad 1 ar gyfer geiriad diwygiedig y polisi a'r cyfiawnhad rhesymedig.

6. Goblygiadau ar gyfer dyraniadau, lwfans hap-safleoedd a chadernid y CDLI

Dyraniadau

- 6.1 Nid yw'r mater o ffosffadau yn Sir y Fflint yn effeithio ar y sir gyfan gan mai dim ond tri gwaith trin dŵr gwastraff mewndirol sy'n gollwng i Afon Alyn, sy'n rhan o'r dalgylch ehangach sy'n llifo i Afon Dyfrdwy, sef yr afon mewn ardal cadwraeth arbennig a drafodir o ran datblygiad yn deillio o CDLI Sir y Fflint a Wrecsam.
- 6.2 Mae CDLI Sir y Fflint yn darparu ar gyfer 7,870 uned i ddarparu'r gofyniad tai o 6,950. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed wedi ystyried yr addasiad yn arwain o IMAC001 yn Warren Hall, mae 13.2% o lwfans hyblygrwydd yn parhau ar fantolen tai y cynllun.
- 6.3 O ran y dyraniadau yn y cynllun, o'r 1,775 o unedau a ddarperir drwy ddyraniadau, dim ond 550 sy'n draenio i'r gwaith trin dŵr gwastraff sy'n llifo i Afon Alyn. Mae hyn yn 7% o lefel cyffredinol y tai a ddarperir yn y cynllun sy'n cynnwys pedwar dyraniad - HN1.1 Well St, Bwcle; HN1.5 Ffordd Dinbych/ Gwernaffield Rd, yr

Wyddgrug; HN1.9 Ffordd Wreccsam, HCAC; HN1.10 Cae Isa, New Brighton. Mae hwn yn effaith gweddol fach i'w liniaru ac mae'r Strategaeth yn darparu sail y ffordd i gyflawni hyn, yn ogystal wrth gwrs ag unrhyw gynigion lliniaru y bydd datblygwyr safleoedd yn eu cynnig, ac mae croeso iddynt wneud hynny. Mae gan bob un le i gynnig cynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy y gellid eu gwella i ddatblygu gwlyptiroedd/gwelyau corsen e.e. mae hyn eisoes wedi'i gynnig mewn cynigion a welwyd ar gyfer Cae Isa a Ffordd Wreccsam.

- 6.4 Mae taflwybr y safleoedd a ddyrennir (Atodiad 3a yn y ddogfen Newidiadau i Faterion sy'n Codi [FCC030](#)) ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd safleoedd Well St., Bwcle (HN1.1), Ffordd Wreccsam, Abermorddu (HN1.9), a Cae Isa, New Brighton (HN1.10) wedi eu datblygu'n llawn erbyn 1/4/2026, a'r safle Ffordd Dinbych/Greenfield Rd., yr Wyddgrug (HN1.6) wedi ei ddatblygu'n llawn erbyn 1/4/2028. Fodd bynnag, o ganlyniad i weithredu'r cynigion lliniaru, os bydd oedi o flwyddyn i ddatblygiad y pedwar safle, byddai'r safleoedd yn dal i gael eu cwblhau'n braf o fewn cyfnod y Cynllun. O ganlyniad, ni fyddai hyn yn cael effaith ar gyflenwad tai'r CDLI o 7870 uned neu'r taflwybr AABR, heblaw am addasiad bychan i ddosbarthiad blynyddol y rhai a ragwelir fydd yn cael eu cwblhau yn y taflwybr.
- 6.5 O'r uchod, mae cyfran sylweddol o'r ddarpariaeth arfaethedig yn y Cynllun yn dal yn rhydd i gael ei gyflawni heb fod angen mesurau lliniaru ffosffad pellach, gan gymryd y bydd parhad yng ngallu'r cynllun i gynnal cyfraddau darparu ar gyfer tai yn unol â'i daflwybr, wrth ganiatáu i'r mesurau lliniaru cymesur angenrheidiol gael eu hystyried a'u rhoi ar waith.

Lwfans Hap-safleoedd

- 6.6 O ran hap-safleoedd ac unrhyw effaith ar y lwfans hap-safleoedd a wneir gan y cynllun, mae'r Strategaeth wedi cymryd y senario waethaf bosibl wrth ragweld datblygiad hap-safleoedd a allai gael eu cynnig ac a fyddai'n draenio i'r tri gwaith trin dŵr gwastraff. Mae hyn yn seiliedig ar allosod tueddiadau blaenorol ar gyfer datblygiad hap-safleoedd yn nalgylchoedd y gwaith trin dŵr gwastraff yn cynhyrchu cyfanswm a ragwelir o 482 uned dros weddill bywyd y cynllun (Gwaith Bwcle 246; Yr Wyddgrug 164; Yr Hôb 72).
- 6.7 Bydd yr Arolygydd hefyd wedi sylwi o ystyriaethau blaenorol o'r lwfans hap-safleoedd, bod y tueddiad ar gyfer cyflawni hap-safleoedd un ai yn y tymor hir neu mor bell yn ystod cyfnod y cynllun, yn tua dwbl y lwfans a wnaed yn y fantolen tai (60 uned y flwyddyn). Dyma pam, wedi defnyddio'r tueddiad hwn, bod y senario ar gyfer datblygiad hap-safleoedd yn y Strategaeth y senario waethaf bosibl. Yr un mor bwysig yw'r ffaith, o'r ddarpariaeth hap-safleoedd disgwylidig o 600 uned dros gyfnod y cynllun cyfan, mae 489 uned wedi cael eu darparu ym mhum mlynedd cyntaf y cynllun. Mae hyn yn gadael dim ond 111 uned i gael eu darparu dros y ddeng mlynedd sy'n weddill o'r cynllun o 2020 ymlaen, sy'n ddim ond 11 uned y flwyddyn. Cafodd hyn ei osod yn dilyn y gwrandawriad ar hyn, mewn nodyn esboniadol gan y Cyngor ([FCC014](#)).

6.8 Mae'r Cyngor felly yn casglu sawl peth o hyn o ran effaith ar lwfans hap-safleoedd:

- Mae cyfraniad gwirioneddol sylweddol eisoes wedi'i wneud tuag at hap-safleoedd a gynlluniwyd (81.5% wedi'i ddarparu).
- Dim ond 11 uned hap-safleoedd arall y flwyddyn sydd angen i'r cynllun eu hadfer dros weddill cyfnod y cynllun.
- Er ei bod yn debygol y bydd y tueddiad hwn yn uwch, nid oes rhaid darparu hwn, neu'r gyfradd a gymerir yn y Strategaeth, i gynnal mantolen tai'r cynllun a'i gadernid.

6.9 Nid yw'r mater o ffosffadau ychwaith yn atal hap-safleoedd rhag cael eu cynnig, ond gall effeithio ar eu hamseru yn dibynnu ar ddarparu mesurau lliniaru addas. Mae cyfle sylweddol hefyd yn parhau ar draws y sir i ddatblygiadau hap-safleoedd gael eu cynnig fydd yn draenio i waith trin dŵr gwastraff nad yw'n cael ei effeithio gan y mater hwn.

Goblygiadau ar gyfer Cadernid y Cynllun

6.10 Mae'r mater ffosffadau yn un newydd sydd wedi codi o weithredu targedau newydd ar gyfer lefelau ffosffad mewn ardaloedd cadwraeth arbennig a gyflwynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ionawr 2021. Mae hwn yn fater i Gymru gyfan sy'n effeithio ar y System Gynllunio, Cynlluniau Datblygu a chynigion datblygu penodol, ond mae'r mater a'r angen am ddatrysiad yn mynd ymhell y tu hwnt i gyfrifoldeb na gallu'r System Gynllunio i ymateb.

6.11 Fel nad yw'r dull na chanlyniadau posibl cyflwyno'r safonau newydd hyn yn dod yn rhwystr neu'n rhoi embargo ar ddatblygiadau yng Nghymru na Sir y Fflint, mae'r Cyngor wedi dilyn cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru, sef dangos drwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y CDLI nad oes effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw afon ardal cadwraeth arbennig o ganlyniad i ddatblygiad yn y cynllun.

6.12 Yn amlwg ac o safbwynt dangos cadernid, mae'r Cynllun eisoes yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n casglu 'nad oes effaith niweidiol', sydd wedi bodloni Cyfoeth Naturiol Cymru yn flaenorol.

6.13 Felly, y dull a gymerwyd o ran ffosffadau yw i ddiweddarau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y mater hwn a darparu'r dystiolaeth a'r dull i gadarnhau ei ganfyddiadau nad oedd 'unrhyw effaith niweidiol'. Y dystiolaeth honno yw'r Strategaeth Lleihau Ffosfforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy, strategaeth sy'n dynodi ystod o ddulliau ymarferol y mae modd eu cyflawni i liniaru effaith ar ddwy lefel benodol - yn gyntaf, yr hyn y mae gan y Cyngor / CDLI gyfrifoldeb a rheolaeth drosto (mesurau categori 1 fel y crynhowyd yn gynharach) ac yn ail mesurau i ddarparu gostyngiadau ehangach ar raddfa fwy mewn ffosffadau yn nalgylch afonydd (mesurau categori 2). Mae hyn yn gyfrifoldeb ar lawer o fudd-ddeiliad yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru ac eraill. Cynigir bod y mesurau'n cael eu darparu drwy Fwrdd Rheoli Maethynnau sy'n dilyn modelau a sefydlwyd

eisoes mewn mannau eraill, sydd eisoes yn cael eu hadolygu gan swyddogion yn Sir y Fflint a Wrecsam i ddiffinio cylch gorchwyl cychwynnol a grŵp swyddogion technegol i gefnogi gweithredu'r Bwrdd.

6.14 Ymgynghorwyd yn helaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y gwaith o gynhyrchu'r Strategaeth ac maent hefyd wedi bod yn rhan o adolygu Polisi EN15 - Adnoddau Dŵr i ddarparu 'cynllun wrth gefn' ochr yn ochr â'r strategaeth, i sicrhau bod datblygiad yn digwydd dim ond pan fydd mesurau lliniaru addas yn eu lle.

6.15 Ynghyd â'r Cyngor, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi cynhyrchu datganiad tir cyffredin ar y cyd, sy'n nodi'r sefyllfa y cytunwyd arni rhwng y ddau sefydliad o ran y dull strategol at leihau lefelau ffosffad o ddatblygiadau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r dull sy'n cael ei gymryd i ddatblygu'r strategaeth a'r polisi EN15 diwygiedig ac maent yn **fodlon bod y dull strategol arfaethedig at ddarparu'r mesurau lliniaru yn dderbyniol mewn egwyddor**. Ar y sail hwn y mae atodiad yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd yn casglu 'nad oes effaith niweidiol' o'r cynllun.

6.16 Er gwaethaf y safle uchod, mae'r Cyngor hefyd wedi myfyrio ar gymesuredd y mater hwn i'r CDLI a'r synnwyr o bersbectif sydd ei angen i roi'r mater yn ei gyddestun cywir. I gyfleu hyn:

- Dim ond pedwar dyraniad heb ganiatâd cynllunio sy'n draenio i'r tri gwaith trin dŵr gwastraff a effeithiwyd - sef HN1.1, HN1.6, HN1.9 a HN1.10;
- Cyfanswm yr unedau yn y dyraniadau hyn sydd angen eu lliniaru yw dim ond 550, neu 7% o'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer tai yn y Cynllun;
- Mae'r cynllun yn parhau ar y trywydd iawn o ran darparu tai ac mae ei lwfans hyblygrwydd, ar 13.2%, yn llawer uwch na'r hyn a nodir yn llawlyfr y cynlluniau datblygu;
- Cyfrifwyd yn fras bod traean y ffosffad sy'n mynd i afonydd ardal cadwraeth arbennig yn dod o'r hyn sy'n cael ei ryddhau o waith trin dŵr gwastraff, gyda dau draean o amaethyddiaeth ac arferion rheoli tir. Gan gymryd bod 150,000 o dai presennol yn nalgylch ehangach Sir y Fflint a Wrecsam ar gyfer Afon Dyfrdwy yn rhyddhau llif budr drwy'r gwaith trin dŵr gwastraff bob blwyddyn, mae'r gyfradd cwblhau cyfartalog neu'r 'ychwanegiad' o gartrefi newydd o lif creu CDLI Sir y Fflint yn debygol o fod tua 500 y flwyddyn. Er na fydd pob un o'r rhain yn draenio i waith trin dŵr gwastraff a effeithiwyd, y cyfraniad ychwanegol blynyddol iddynt o gartrefi newydd yn y CDLI fydd 0.3%. Yn olaf, gan gymryd bod gwaith trin dŵr gwastraff yn gyfrifol yn gyffredinol am draean y lefelau ffosffad, mae'r cyfraniad cymharol hwn o'r cynllun yn lleihau cymesuredd hyd yn oed yn fwy.

6.17 Fel mae'r strategaeth yn cydnabod yn llawn, nid dim ond problem i'r System Gynllunio neu'r CDLI ymdrin â hi a'i datrys yw hon. Yn wir, wrth gymharu, mae'r materion mwyaf yn y dalgylch ehangach a thu hwnt i gyfrifoldeb a rheolaeth

uniongyrchol y Cyngor. Oherwydd y ffordd y mae'r System Gynllunio yn cael ei rheoleiddio a'i llywodraethu gan ddeddfwriaeth, mae wedi bod yn gymharol hawdd cyfeirio'r angen i liniaru effaith ffosffadau at Gynllunio, a bydd yn parhau i wneud llawer o waith i fodloni'r rhwymedigaeth hon. Wedi dweud hynny, a phan fydd yn cyflawni gwelliannau, er gwaetha'r ymdrech hon, byddant ar raddfa gweddol fychan, o'u cymharu â'r prif gyfranwyr sef safleoedd gwaith trin dŵr gwastraff ac arferion amaethyddol. Mae'r Cyngor yn credu y bydd gwelliannau gweddol fychan ar raddfa effaith llawer mwy, yn cael effeithiau cyfatebol sylweddol mewn lleihau lefelau ffosffad. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llawn i wneud ei ran yn y mater hwn a gweithio'n llwyddiannus gyda budd-ddeiliad ymroddedig eraill.

6.18 O safbwynt cadernid y cynllun, mae'r Cyngor yn ystyried na fydd y Cynllun yn cael effaith niweidiol ar lefelau ffosffad mewn afonydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig ac mae wedi dangos sut ac yn gyfatebol y gellir liniaru hyn yn briodol i ganiatáu i ddatblygiad cynaliadwy ddigwydd. Felly mae'r Cynllun yn parhau'n gadarn ac mae'r Cyngor yn gwahodd yr Arolygydd i ddod i'r casgliad hwn o'r dystiolaeth a roddir.

Atodiad 1 EN15 Adnoddau Dŵr - geiriad diwygiedig y polisi a'r cyfiawnhad rhesymedig.

EN15: Adnoddau Dŵr

Bydd datblygiad sy'n effeithio ar adnoddau dŵr ond yn cael eu caniatáu os:

- a. na fydd yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gapasiti a llif systemau dŵr daear, dŵr wyneb neu ddŵr arfordirol;**
- b. na fyddai'n peri risg annerbyniol i ansawdd dŵr daear, dŵr wyneb neu ddŵr arfordirol;**
- c. os byddai mynediad at gyflenwad dŵr, carthffosiaeth a chyfleusterau trin carthffosiaeth digonol sy'n bodoli eisoes neu fydd yn cael eu darparu mewn pryd i wasanaethu'r datblygiad heb niwed i echdyniadau presennol, ansawdd dŵr, pysgodfeydd, amwynder neu warchodfa natur; a**
- d. nid oes unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd ardal cadwraeth arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn benodol drwy drin dŵr gwastraff**

Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd ardal cadwraeth arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, bydd gofyn i ddatblygiad sy'n creu dŵr gwastraff ddangos nad oes cynnydd mewn lefelau ffosfforws yn yr ardal cadwraeth arbennig.

Gellir cyflawni hyn drwy weithredu mesurau lliniaru a chanllawiau cynllunio atodol cysylltiedig. Bydd mesurau lliniaru'n golygu naill ai:

- 1. Darparu mesurau a nodir yn Strategaeth Lleihau Ffosfforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy, fydd angen:**
 - i. Cyfraniadau datblygwyr/cronfeydd ardreth seilwaith cymunedol i ddarparu mesurau a ddynodir yn y Strategaeth i leihau lefelau ffosfforws yn y dalgylch.**
 - ii. Cyflwyno'r datblygiad yn raddol i fodloni cerrig milltir darparu yn y Strategaeth ac oedi'r datblygiad os na fyddant wedi cael eu bodloni;**

NEU

- 2. Defnyddio dulliau lliniaru amgen i'r rhai a nodwyd yn 1. uchod. Pan fydd tystiolaeth bellach yn dangos y gellir osgoi effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd ardal cadwraeth arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn defnyddio dulliau lliniaru eraill, rhaid cytuno ar y rhain gyda'r Cyngor, mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru.**

12.X1 Dylai datblygwyr gysylltu â'r Cyngor yn gynnar o ran cynigion datblygu sydd â'r potensial i gael effaith niweidiol ar lif a/neu ansawdd dŵr i osgoi oedi posibl a/neu wrthod y cais cynllunio. Dylai datblygwyr sy'n cynnig ceisiadau cynllunio hefyd gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru am gyngor cyn ymgeisio pan fo'n briodol.

12.X2 Mae newid hinsawdd yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar hinsawdd Cymru gyda chyfnodau hirach o dywydd sych cynnes a llai o law ond mwy o ddigwyddiadau dwys o law. Mae'r tebygrwydd o lai o law yn ystod misoedd yr haf yn fater arwyddocaol a bydd yn rhoi mwy o bwysau ar gyflenwadau dŵr presennol yn enwedig yn ystod hafau hir sych. Er mwyn sicrhau diogelwch cyflenwad dŵr i'r dyfodol, dylai'r cynllun datblygu ystyried cynigion yng ngoleuni'r system hydrolegol bresennol, a newidiadau posibl i'r dyfodol.

12.X3 Yn gyntaf, dylai pob datblygiad geisio cysylltu â'r rhwydwaith isadeiledd dŵr gwastraff sy'n bod eisoes yn rhan o'r prif gyflenwad. Fel eithriad, ar gyfer datblygiadau ble nad yw'n bosibl cysylltu â'r gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus, bydd ar gynigion o'r fath angen cyfiawnhau pam nad yw cysylltiad yn bosibl a dangos cydymffurfiaeth â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 008/2018 a chanllaw Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cysylltiadau â thanciau septig gwaith trin preifat. Rhaid i gynigion datblygu newydd sy'n rhoi pwysau ar gapasiti'r cyflenwad dŵr presennol a'i isadeiledd trin dŵr a charthffosiaeth sicrhau bod yr isadeiledd angenrheidiol yn ei le, neu'n cael ei ddarparu i'w gwasanaethu o fewn rhaglen Gynllunio Rheoli Asedau briodol. Mae'r pwysau cynyddol ar yr isadeiledd ac ar natur yn ystyriaeth bwysig a bydd disgwyl i ddatblygiad newydd ddangos bod ystyriaeth ddigonol wedi'i roi i gadw adnoddau dŵr a diogelu ansawdd dŵr.

12.X4 Yn ogystal â gwella darpariaeth isadeiledd dŵr gwastraff, gellir gwella ansawdd dŵr drwy nifer o fesurau'n cynnwys: cynllunio effeithiol; defnyddio gwlyptiroedd/mannau gwyrdd i leddfu llifogydd; defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy; defnydd cynaliadwy a ddŵr yn y cynllun; plannu rhywogaethau cynhenid; cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol; ac arferion amaethyddol da. Gellir datblygu rhai o'r cynigion hyn drwy'r system gynllunio ble mae polisïau eraill yn y Cynllun yn gweithio ar y cyd â'r polisi adnoddau dŵr i gyfrannu at reoli materion ansawdd dŵr.

12.X5 Mae ystyriaethau ychwanegol yn berthnasol i ddatblygiadau newydd ble mae potensial i gynydd mewn ffosforws, yn enwedig o ganlyniad i ollwng dŵr gwastraff, gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd ardal cadwraeth arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd.

12.X6 Gall cynnydd mewn llif i waith trin dŵr gwastraff ar y prif gyflenwad arwain at gynydd mewn maethynnau mewn dyfroedd o ganlyniad i ddŵr sy'n gollwng o'r gwaith. Mae'r polisi hwn yn ceisio rheoli llif dŵr gwastraff o ddatblygiadau newydd i sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'i diwygiwyd) a chyfyngiadau gwaith trin dŵr gwastraff hysbys. Mae'n berthnasol i Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, gan gynnwys yr isafonydd.

12.X7 Ym mis Ionawr 2021, gosododd Cyfoeth Naturiol Cymru safonau ffosforws newydd ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd â thargedau oedd 50-80% yn fwy llym na'r rhai blaenorol a rhoddwyd cyngor newydd i Awdurdodau Lleol. O ran Sir y Fflint, darganfu prawf cydymffurfiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru fethiant i fodloni'r safonau newydd hyn yn ardal cadwraeth arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Mae'r tri gwaith trin dŵr gwastraff sy'n gwasanaethu dyraniadau'r CDLI yn llifo i Afon Alyn, sy'n llifo i Afon Dyfrdwy. Yn dilyn cyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru, barn y Cyngor yw na fyddai'n briodol i'r CDLI ddibynnu ar Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd sy'n cefnogi Trwyddedau ffosforws presennol mewn gwaith trin dŵr gwastraff i gasglu nad oes effaith niweidiol ar gyfanrwydd ardal cadwraeth arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid o ddatblygiadau'r CDLI.

12.X8 Roedd yr atodiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 2021 a ddilynodd y safonau newydd yn cadarnhau effeithiau ar ansawdd dŵr fel mater i ardal cadwraeth arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn

Tegid, a bydd angen gwelliannau i reoli'r dŵr gwastraff i sicrhau nad oes effaith niweidiol ar gyfanrwydd ardal cadwraeth arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid a bod y gallu i ddarparu twf ar y raddfa a nodwyd yn y CDLI yn cael ei gynnal.

12.X9 I osgoi effaith niweidiol, mae Cyngor Sir y Fflint, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi cydweithio'n agos gan nodi o dan ba amgylchiadau y mae angen rheoli gollyngiadau dŵr a gwaith trin dŵr gwastraff. Bydd y Cyngor felly'n disgwyl i ddatblygiadau gysylltu ag isadeiledd carthffosiaeth sy'n bod eisoes. Mae gan y gwaith trin dŵr gwastraff (Yr Wyddgrug, Bwcle a'r Hôb) sy'n gwasanaethu pedwar o'r dyraniadau CDLI gyfyngiadau Trwydded ffosfforws a stripio ffosfforws gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gollyngiadau dŵr gwastraff. Fodd bynnag, cafodd y cyfyngiadau Trwydded ffosfforws hyn eu gosod cyn y safonau newydd a'r adroddiad ar gyflwr ardal cadwraeth arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid ac ar gyfer dibenion y CDLI, ni ellir dibynnu ar yr Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd sy'n cefnogi'r Trwydded gollyngiadau i gasglu na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle felly byddai angen mesurau lliniaru beth bynnag. Mae'r dyraniadau tai sy'n weddill yn cael eu gwasanaethu gan waith trin dŵr gwastraff sy'n draenio i rannau llanw'r Afon Dyfrdwy. Mae rhannau llanw o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi cael eu heithrio, gan bod sail y dystiolaeth sy'n ategu'r targedau newydd yn ymwneud â dŵr croyw yn unig.

12.X10 I hwyluso darparu datblygiadau a allai gael eu heffeithio gan y polisi hwn, mae'r Cyngor wedi paratoi'r 'Strategaeth Lleihau Ffosfforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy'. Mae'r ddogfen yn nodi'r dull strategol ar gyfer lleihau ffosfforws yn nalgylch Afon Dyfrdwy a hefyd hwyluso twf y CDLI a dangos y gellir darparu mesurau lliniaru'n ymarferol. Mae'r ddogfen yn nodi ystod o fesurau a gytunwyd mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae mesurau Categori 1 i'r Cyngor eu darparu er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd ac osgoi effeithiau niweidiol o'r datblygiad a ddarperir yn y cynllun. Mae hefyd yn nodi cerrig milltir allweddol, cyfrifoldeb dros eu darparu, sut mae'r datblygiad yn cael ei gyflwyno fesul cam o ran y cerrig milltir a sut y gellir ymdrin â chyfyngiadau ar ddarparu. Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi ystod o fesurau Categori 2 i ddarparu gostyngiadau ehangach ar draws y dalgylch, y mae cyfrifoldeb dros eu darparu y tu allan i gwmpas y CDLI. Mae'r Strategaeth yn ddogfen fyw fydd yn datblygu yn ystod oes y CDLI mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru.

12.X11. Mewn Cynllun Cyfraniadau Datblygwr, mae'r Strategaeth yn nodi sut y byddai mesurau'n cael eu hariannu, sut mae costau'n cael eu cyfrifo a sut mae rhwymedigaeth gynllunio / Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael eu defnyddio i ddarparu mesurau lliniaru. Pan fydd y Strategaeth yn cael ei diweddarau â mesurau lliniaru manwl, bydd y Cynllun Cyfraniadau Datblygwr hefyd yn cael ei ddiweddarau. Efallai y bydd datblygwyr yn dymuno dilyn eu dull eu hunain o liniaru, nid oes rheidrwydd arnynt i ddefnyddio'r mesurau lliniaru a nodir yn y Cynllun Cyfraniadau Datblygwr/Strategaeth, ond rhaid i'r rhain gael eu cytuno gyda'r Cyngor, mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru.

12.X12 Cefnogir y Strategaeth drwy sefydlu Bwrdd Rheoli Maethynnau fydd â dyletswyddau ehangach â nod ehangach i ddarparu'r datrysiadau hirdymor, mesurau categori 2, i ymdrin â'r mater o ormod o ffosfforws mewn afonydd, sy'n codi o weithgareddau presennol a defnydd tir yn y dalgylch ehangach. Mae mesurau posibl o gategori 2 y gellid dibynnu arnynt i ddarparu buddion ehangach a gostyngiadau net ar draws y dalgylch (yn ogystal â mesurau categori 1) yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth. Mae'r mesurau hyn y tu allan i gwmpas y CDLI a chynllunio ond maent yn bwysig ar gyfer cael dull cadarn o leihau ffosfforws yn ardal cadwraeth arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid.

12.X13 Yn y pen draw, gall datblygiad gael ei gefnogi dim ond os na fydd yn arwain at fwy o ffosforws yn yr ardal cadwraeth arbennig, ond efallai y bydd angen oedi datblygiad pan na fydd cerrig milltir y Strategaeth yn cael eu bodloni.

12.X14 Cwmnïau dŵr lleol sy'n gyfrifol am ddarparu a chynnal gweithfeydd trin dŵr gwastraff i safon sy'n bodloni amodau a ganiateir. Bydd eu rhaglenni rheoli asedau'n nodi gwaith cyfalaf i sicrhau y cydymffurfir â thrwyddedau gollwng i gyrsiau dŵr. Yn y dyfodol, os bydd angen diweddarau'r Trwyddedau gollwng ar gyfer gwaith trin ac os bydd angen gwaith o'r fath, efallai y bydd angen diweddarau'r Strategaeth, y mesurau lliniaru a'r Canllawiau Cynllunio Atodol.